

Ymudo dan orfod a thrais rhywiol a thrais ar sail rhywedd: canfyddiadau prosiect SEREDA yng Nghymru

Cyflwyniad

Cafodd dros 82 miliwn o bobl eu dadleoli'n orfodol yn 2020, ac mae oddeutu hanner ohonynt yn fenywod (UNHCR 2021; Menywod y Cenhedloedd Unedig 2020). Mae'r gwrthdaro diweddar yn Wcraïn wedi ychwanegu at y niferoedd hynny gyda dadleoli'n effeithio'n bennaf ar fenywod a phlant (UNHCR, 2022). Mae menywod a merched yn wynebu gwendidau penodol pan gânt eu gorfodi i ymfudo. Mae'r rhain yn cynnwys bod yn fwy agored i drais rhywiol a thrais ar sail rhywedd (SGBV). Mae'r Comisiwn Ffoaduriaid Menywod (2019) wedi amlygu lefelau rhyfeddol o SGBV a brofwyd gan ffoaduriaid yn ystod gwrthdaro diweddar, trwy gydol y cyfnod ffoi, mewn gwrsylloedd ac wrth gael eu gadw fel mewnfudwyr. Mae graddfa profiadau o'r fath yn parhau i fod yn anhysbys er eu bod yn gyffredinol yn fwy na 50% o'r holl fenywod a gyda than-adrodd yn arferol. Mae LGBTQIA+, dynion a bechgyn hefyd yn cael eu targedu. Mae trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd (SGBV) yn cynnwys trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol, yn ogystal â thrais corfforol, seicolegol neu emosiynol; priodas dan orfod; gwaith rhyw dan orfod; a gwrthod adnoddau, cyfleoedd, gwasanaethau a rhyddid i symud ar sail rolau a normau rhywedd a briodolir yn gymdeithasol.

Nod y prosiect SEREDA yw deall natur SGBV a brofir gan ffoaduriaid sydd wedi ffoi rhag gwrthdaro ac sy'n byw mewn gwledydd lloches. Wedi'i ariannu gan Hyb Cymorth ACE a Chyllid Ansawdd-Ymchwil UKRI yng Nghymru, ymgwymerwyd â'r prosiect Cymreig yn gynnar yn 2022 dan arweiniad Prifysgol Birmingham gyda chefnogaeth gan Brifysgol Caerdydd. Mae'r briff hwn yn amlinellu'r canfyddiadau o gyfweiliadau â goroeswyr a darparwyr gwasanaethau, gan archwilio cyflwr presennol y ddarpariaeth yng Nghymru a sut y gellid ei gwella. Rydym yn dechrau trwy amlinellu'r dulliau a ddefnyddir cyn crynhoi canfyddiadau ynghylch natur ac effaith SGBV. Wedyn rydym yn amlinellu'r ffyrdd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yng Nghymru cyn gosod argymhellion.

Dulliau

Cynhaliwyd cyfweiliadau yng Nghymru gyda 13 o oroeswyr¹ SGBV ymfudol dan orfod, a 13 o ddarparwyr gwasanaeth a weithiodd gyda goroeswyr SGBV, yn ystod Chwefror a Mawrth 2022. Daeth ymatebwyr a oedd yn oroeswyr o 11 o wahanol wledydd yn Affrica, De America a De-ddwyrain Asia a chawsant eu hadnabod trwy gysylltu â chyrrff anllywodraethol sy'n gweithio gydag ymfudwyr gorfodol. Nododd ymatebwyr eu bod yn profi SGBV ar ôl cwestiynau sgrinio eang. Holwyd cwestiynau cyfweiliad am brofiadau SGBV, cyflawnwyr, cefnogaeth i gynorthwyo, ffactorau sy'n llunio bregusrwydd a gwytnwch, yr help sydd ei angen a'i dderbyn ac effeithiau SGBV ar ailsefydlu.

¹ Rydym yn defnyddio'r term ymfudwr dan orfod i ddynodi unigolion sydd wedi profi rhyw fath o ddadleoli anwirfoddol. Fe'i defnyddir i symud sylw oddi wrth ddiffiniadau cyfreithiol i brofiadau unigol.

Cysylltwyd â darparwyr gwasanaeth o bob rhan o Gymru ar ôl iddynt gael eu nodi fel rhai oedd â chysylltiad â goroeswyr SGBV ymfudol dan orfod. Roeddent yn cynnwys unigolion sy'n gweithio gyda, neu sydd â chyfrifoldeb am, ymfudwyr dan orfod mewn elusennau, gwasanaethau iechyd, a'r sector cyhoeddus y gofynnwyd iddynt roi trosolwg o brofiadau goroeswyr, gwendidau a ffactorau gwydnwch, y gwasanaethau a ddarparwyd ganddynt, data a monitro a thriniaeth a dulliau ymyrryd yn ogystal â myfyrio ar effaith SBV ar integreiddio. Derbyniwyd cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Adolygu Moesegol Prifysgol Birmingham ar gyfer y prosiect SEREDA. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chaniatâd gwybodus llawn a sicrhawyd y cyfweleion o anhysbysrwydd mewn adroddiadau, trafodaethau a chyhoeddiadau dilynol. Cymerwyd camau i leihau'r posibilrwydd o aildrawmateiddio, a chyfeiriwyd ymatebwyr yr oedd angen cymorth arnynt at yr asiantaethau priodol.

Canfyddiadau

Profiadau SGBV

Holwyd yr ymfudwyr dan orfod a gyfwelwyd ar gyfer prosiect SEREDA am eu profiadau SGBV. Roedd rhai wedi profi un digwyddiad arwahanol, tra bod eraill wedi profi digwyddiadau mynych a ddigwyddodd wrth law troseddwyd gwahanol dros amser a lle. Mae ymchwilwyr wedi defnyddio'r term continwwm trais i ddisgrifio'r trais parhaus a brofir gan fenywod cyn, yn ystod ac ar ôl gwrthdaro. Fe wnaeth rhai ymatebwyr brofi trais rhyngbersonol (IPV) a mathau eraill o SGBV. Esboniodd ymatebydd LGBTQIA+ sut roedd eu bywyd mewn perygl yn eu gwlad wreiddiol oherwydd eu hunaniaeth rywiol. Roedd rhai mathau o drais yn strwythurol. Roedd digwyddiadau'n cynnwys:

Trais cyn dadleoli

- Priodas dan orfod (menywod a dynion) a phriodas plant
- Trais ac SGBV o fewn teuluoedd
- Carcharu a rheoli
- Anffurfiad organau cenhedlu benywod (FGM) a bygythiad FGM
- Treisio gan unigolion neu grwpiau
- IPV gan y gŵr a'i deulu
- Normaleiddio trais ac anghosbedigaeth ar gyfer camdrinwyr
- Bygythiadau marwolaeth oherwydd hunaniaeth rywiol
- Caethwasiaeth fodern

Trais yn ystod Gwrthdaro a Ffoi

- Trais corfforol ac SGBV gan gyflawnwyr lluosog
- Rhyw trafodaethol a threisio gan fasnachwyr
- Cael eu gorfodi i fod yn dyst i ymosodiad rhywiol

- Caethiwo a herwgipio

Trais yng Nghymru

- Dwysáu IPV a defnyddio statws mewnfudo i reoli
- Gwahaniaethu ac ymosodiad hiliol
- Caethwasiaeth fodern a masnachu rhyw
- Cyfweiliadau lloches ymosodol a hir
- Y cysylltiad rhwng aros, amddifadedd ac anhwylderau seicolegol
- Aflonyddu mewn tai lloches i ymfudwyr dan orfod LGBTQIA+
- Plant sydd mewn perygl o gael eu cipio ar gyfer FGM
- Cadw a throeddoli dioddefwyr caethwasiaeth fodern
- Dim digon o wasanaethau arbenigol i oroeswyr – mae diffyg triniaeth yn gwaethygu amodau.

Adroddwyd bod effeithiau cyfunol y trais uchod yn arwain at lefelau uchel o drawma gan arwain at niwed corfforol a seicolegol. Soniodd ymatebwyr am boen yn ymwneud â phrofiadau SGBV cynharach, teimlo'n hunanladdol, anhwylderau cysgu, iselder a gorbryder. Cadwodd goroeswyr SGBV benywaidd i ffwrdd o'u cymuned ehangach oherwydd eu bod yn ofni stigmatiddio pe byddai eraill yn cael gwybod eu bod wedi cael eu herlid.

Wrth ofyn am ddatgelu, clywsom gan ddarparwyr gwasanaethau y gallai'r broses o ddatgelu gymryd blynyddoedd. Roedd y rhesymau dros beidio â datgelu yn cynnwys hunan-fai, stigma, cywilydd, euogrwydd, peidio â gwybod bod profiadau "yn cyfrif" fel trais, normaleiddio trais, ac ofn awdurdod. Dim ond un darparwr y dywedwyd ei fod yn cynnig gwasanaeth sy'n ddiwylliannol ddiogel, er enghraifft drwy sicrhau bod anghenion crefyddol yn cael eu diwallu er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chefnogi datgelu yn y pen draw. Credwyd mai BAWSO oedd yr unig sefydliad yng Nghymru a allai ymdrin â materion rhywedd, ymfudo dan orfod a thrais ar yr un pryd. Fe wnaeth sefydliad LGBTQIA+ ddadlau bod aros am ddatgeliad yn broblematig gan ddweud y dylid annog goroeswyr i ddatgelu cyn gynted â phosibl fel y gallent gael eu gosod mewn tŷ diogel i ffwrdd o gyd-breswylwyr a allai fod yn homoffobig. Mae hyn oherwydd bod cymorth sylfaenol sydd ei angen ar unigolion LGBTQIA+, megis tai a gofal iechyd, yn dibynnu ar ddatgeliad o'r fath.

Ffactorau sy'n cynyddu bregusrwydd i SGBV yng Nghymru

Fe wnaeth darparwyr gwasanaethau a goroeswyr amlinellu ystod o ffactorau a oedd yn llywio bregusrwydd. Nodwyd bod y systemau lloches a mewnfudo'n problemus gan ddarparwyr gwasanaethau a goroeswyr gan fod y rhain yn clymu goroeswyr â pherthnasoedd camdriniol, yn creu statws ansicr, goroeswyr tlawd ac yn tanseilio iechyd meddwl goroeswyr. Roedd ffactorau a drafodwyd yn cynnwys:

- Llwybrau ymfudo dan orfod hir ac anffurfiol i'r DU
- Prosesau lloches hirfaith gyda chyfnodau o amddifadedd
- Cyfweliadau lloches hirfaith sy'n ail drawma i ymgeiswyr
- Tai anniogel, gwael ac amhriodol
- Tlodi, mynediad cyfyngedig i waith a chyfnodau heb gymorth ariannol
- Statws fisa ansicr neu ddibyniaeth ar gamdrinwyr mewn fisas priodasol neu fel dibynnydd i brif ymgeisydd lloches
- Mynediad annigonol neu wael at gymorth cyfreithiol
- Heb y gallu i siarad Cymraeg na Saesneg
- Diffyg mynediad at wybodaeth am hawliau
- Heb y gallu i gyrchu cymorth seicolegol
- Heb unrhyw hawl i statws i gae; arian cyhoeddus
- Byw mewn ardal wledig

Er bod caethwasiaeth fodern fel arfer yn golygu bod yn agored i SGBV, fe wnaethom nodi pa mor agored i niwed y mae'r rhai a gafodd eu masnachu i'r DU fel plant ond a ddaeth i sylw awdurdodau pan oeddent yn oedolion. Roedd yn amhosibl iddynt ddarparu tystiolaeth o amseroedd cyrraedd i'r Swyddfa Gartref ac roeddent wedi colli allan ar addysg ac nid oeddent wedi datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol.

Ffactorau sy'n llunio gwynwch goroeswyr

Roedd yr anallu i gael dewis ac effaith yn eu bywydau yn ffactor craidd a oedd yn tanseilio gwynwch goroeswyr. Roedd cael caniatâd i aros yn golygu adennill effaith a chael dewisiadau ynghylch ble a gyda phwy i fyw, ac ynghylch opsiynau cyflogaeth ac astudio. Roedd aros am benderfyniad ar eu cais am loches yn golygu bod goroeswyr ar gyfeiliorn am flynyddoedd lawer. Defnyddiodd goroeswyr wahanol fecanweithiau i geisio goroesi'r cyfnod hwn gan gynnwys dod yn wirfoddolwyr, dysgu sgiliau newydd, gwneud ffrindiau, ymuno â chynulleidfaoedd ac ymarfer eu ffydd a mynychu digwyddiadau a gweithgareddau a drefnwyd gan fudiadau ymfudol. Gan adlewyrchu canfyddiadau

ar draws y prosiect SEREDA cyfan, pwysleisiodd ymatebydd LGBTQIA+ bwysigrwydd dod o hyd i gymuned trwy sefydliadau LGBTQIA+. Fe wnaeth rhai geisio aros yn gryf dros eu plant gan ganolbwyntio ar roi'r bywyd gorau posibl i'w plant. Soniodd eraill am oroesi ond ddim yn byw tra roedd eu bywydau wedi'u gohirio ac wedi colli pob gobaith o gael bywyd boddhaol.

Ymagweddau at ddarparu gwasanaethau i oroeswyr yng Nghymru

Mae model llywodraethu Llywodraeth Cymru'n hwyluso gweithio mewn partneriaeth. Pwysleisiodd y mwyafrif o ddarparwyr gwasanaethau fod cydweithredu'n gweithio'n dda yng Nghymru o ran cydweithio a chroesyfeirio. Rhoddwyd llawer o enghreifftiau i ni o gydweithio effeithiol.

Fe wnaeth llawer o ymatebwyr nodi mai BAWSO oedd yr unig sefydliad yng Nghymru a oedd â'r arbenigedd sydd ei angen i gynnig gwasanaethau i oroeswyr SGBV ymfudol dan orfod gyda sefydliadau ymfudol a thrais domestig eraill yn tueddu i gyfeirio atynt. Roedd rhai ymatebwyr wedi datgelu i sefydliadau eraill ond heb gael cynnig unrhyw wasanaethau na chymorth. Mae BAWSO yn gweithredu model asesu a brysennu lle mae'n nodi anghenion unigolyn ac yn darparu cymorth brys a hirdymor yn dibynnu ar yr hyn sydd ei angen. Fe wnaeth Cymorth i Fenywod Cymru adeiladu capasiti o amgylch llais ar gyfer eiriolaeth a chynigiodd hyfforddiant ar drais a sut i weithio gyda goroeswyr SGBV a oedd wedi dioddef trawma ond nid oedd yn cynnig hyfforddiant fel mater o drefn ar gymhwysedd diwylliannol nac ar weithio gyda phobl heb orfod troi at arian cyhoeddus.

Cafodd nifer o wasanaethau nad oeddent yn SGBV eu cyrchu gan ymatebwyr. Darparodd un gwasanaeth gymorth ymsefydlu i newydd-ddyfodiaid ynghyd â'r rhai sy'n pontio i wasanaethau prif ffrwd ar ôl penderfyniad cadarnhaol. Roedd y sefydliad hwn yn cynnig gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gleientiaid yn seiliedig ar anghenion unigolion neu deuluoedd ac yn cynnwys cymorth cymdeithasol, tai a chymorth gyda'r system lloches. Roedd ymyriadau eraill yn cynnwys mynediad at adnoddau materol megis bod bwyd ar gael mewn rhai ardaloedd drwy'r Groes Goch, Migrant Help a Byddin yr Iachawdwriaeth. Fe wnaeth un goroeswr gyrchu cymorth gan Gymdeithas Gymunedol Affricanaidd a chafodd sawl un gymorth gan sefydliadau ffydd. Ni allai rhai goroeswyr gyrchu gwasanaethau prif ffrwd oherwydd nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg na Saesneg.

Nodwyd yn eang y diffyg gwasanaethau cymorth cyfreithiol ac yn arbennig gwasanaethau cymorth seicolegol. Mynegwyd pryderon penodol mai dim ond

un gwasanaeth oedd yn gallu gweithio gyda PTSD. Roedd hwn wedi'i ordanysgrifio gymaint fel bod rhaid i oroeswyr aros o leiaf 18 mis. Roedd goroeswyr yn cael trafferth nodi llwybrau clir i gymorth iechyd meddwl. Fe wnaeth ymatebwyr ddadlau bod unigolion yn cael meddyginiaeth yn lle derbyn cymorth. Byddai buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl wedi'u cydleoli yn helpu i ddiwallu anghenion iechyd meddwl goroeswyr. Gallai darpariaeth gynnwys gwasanaeth seicoaddysg a mecanweithiau ymdopi tymor byr i alluogi pobl i ddatblygu sgiliau a strategaethau i ymdopi wrth gyrraedd.

Rhwystrau i ddarpariaeth gwasanaeth

Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau i oroeswyr SGBV yn gyfyngedig iawn. Ariennir BAWSO o dan y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) ond mae llawer o'u gwaith yn cael ei wneud yn cefnogi menywod cyn ac ar ôl i oroeswyr ddilyn y llwybr NRM. Ariannwyd BAWSO a sefydliadau eraill yn bennaf am gyfnodau byr i ymgymryd â phrosiectau penodol a threuliyd llawer o amser yn chwilio am arian yn hytrach na darparu gwasanaethau. Ledled Cymru dywedwyd bod y galw am wasanaethau yn fwy na'r cyflenwad. Dywedodd darparwyr eu bod ond yn gallu cynnig cymorth tymor byr i'r rhai mwyaf anghenus gan adael llawer o unigolion a oedd angen cymorth heb unrhyw gefnogaeth. Gweithredodd y modelau darparu ar sail adweithiol yn hytrach na rhagweithiol.

Dywedodd ymatebwyr y GIG fod diffyg dealltwriaeth o anghenion cymunedau amrywiol a sut i ymateb mewn ffordd ddiwylliannol briodol. Roedd cyfieithu deunyddiau'n brin ac nid oedd staff yn cael eu cefnogi i ddatblygu cymhwysedd diwylliannol. Ni chynrychiolwyd unrhyw bobl â phrofiad bywyd o fudiad gorfodol ar fyrddau iechyd lleol gan arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth o anghenion. Ymhellach, nid oedd llawer o ddealltwriaeth ymhlith darparwyr am y stigma sy'n gysylltiedig â siarad am drais. Nid oedd gan sefydliadau wybodaeth am sut i nodi, cefnogi ac atgyfeirio ynghylch caethwasiaeth fodern ac nid oedd llwybrau atgyfeirio'n glir.

Er bod rhai sefydliadau wedi casglu gwybodaeth am eu cleientiaid, fe wnaeth darparwyr ddadlau bod angen systemau gwell o ran monitro mynediad a phennu angen. Ar hyn o bryd, dim ond ar sail faint o bobl sy'n cyrchu gwasanaethau y caiff angen ei asesu, ag ychydig o ddata yn unig ar gael am rwystrau i fynediad. Felly nid yw graddau'r angen nas diwallwyd yn hysbys.

SGBV ac integreiddio

Mae'r Swyddfa Gartref yn pwysleisio mai dim ond gyda phenderfyniad cadarnhaol am loches y mae integreiddio'n dechrau ac felly nid yw ceiswyr lloches

a cheiswyr lloches a wrthodwyd yn cael eu cefnogi i integreiddio. Yng Nghymru, mae agweddau yn wahanol a safbwynt polisi llywodraeth Cymru yw bod integreiddio yn dechrau wrth gyrraedd. Serch hynny, soniodd y rhai heb ganiatâd i aros am amhosibilrwydd integreiddio pan na chânt ddewis ble i fyw, a chyfleoedd cyfyngedig iawn i weithio, astudio neu ddysgu'r iaith. Waeth beth fo'u statws, mae profiadau o drais yn gwneud integreiddio yn arbennig o heriol. Ymhellach, roedd profiadau o hiliaeth yn tansilio gallu unigolion i deimlo y gallent berthyn yng Nghymru.

Cwmpas i gefnogi goroeswyr SGBV yng Nghymru

Mae natur ddatganoledig Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cyfleoedd i fuddsoddi yng ngwasanaethau SGBV ar gyfer ymfudwyr dan orfod, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi'u dogfennu. Mae polisi iechyd a thair datganoledig yn cynnig cyfle i helpu unigolion sydd ag NRPF, fel sydd wedi digwydd yn ystod menter 'Pawb i Mewn' Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig Covid-19. Nododd yr Adolygiad o Dirioogaeth Anhysbys hefyd lwybrau posibl i archwilio ymhellach o ran argaeledd cymorth y gellid ei ddarparu i bobl ag NRPF gan ddefnyddio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Gellir defnyddio adnewyddiad polisi VAWDASV Llywodraeth Cymru i eirioli dros fwy o gymorth, gan ddefnyddio Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 fel y ddeddfwriaeth sylfaenol. Gall mabwysiadu ymagwedd iechyd cyhoeddus at VAWDASV hefyd fwydo i mewn i gyfleoedd gyda'r Llywodraeth ddatganoledig; ac efallai y bydd cyfleoedd hefyd i bontio'n well rhwng cyfrifoldebau datganoledig a'r rhai heb eu datganoli ledled Cymru yn y system Cyfiawnder Troseddol os mabwysiadir yr ymagwedd Glasbrint at ymdrin â VAWDASV.

Mae'r Deddfau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn annog llunwyr polisi i gydweithio a datblygu gweledigaeth strategol a gellid eu defnyddio i ddatblygu mentrau yn ymwneud ag ymfudo dan orfod ac SGBV. Mae Cynllun Gweithredu LGBTQIA+ Llywodraeth Cymru yn gosod yr holl gyfrifoldeb am geiswyr lloches LGBTQIA+ ar Lywodraeth y DU ond efallai y bydd cyfleoedd i weithio'n agosach gyda darparwyr llety dan gontract y Swyddfa Gartref sy'n troi at awdurdodau lleol i'w helpu i ddod o hyd i dai mwy diogel i geiswyr lloches.

Roedd ymatebwyr yn pryderu am effeithiau'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau ar oroeswyr SGBV a'r tebygolrwydd y byddai'n cynyddu bregusrwydd i SGBV. Roedd cefnogaeth i Lywodraeth Cymru wrthwynebu agweddau ar weithrediad y Bil yng Nghymru yn y ffordd yr oedd wedi gwrthod caniatáu llety a chanolfannau cadw yng Nghymru'n flaenorol.

Casgliadau ac argymhellion

I gloi, mae tystiolaeth glir bod angen cymorth ychwanegol ar oroeswyr SGBV mudol yng Nghymru. Dim ond un sefydliad sydd â'r arbenigedd i weithio gyda goroeswyr ymfudol dan orfod ac mae'r sefydliad hwn wedi'i dan-gyllido ac mae'n gweithio dros ei gapasiti. Ac eto mae amgylchedd polisi Cymru a natur ddatganoledig polisi iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a thai yn addas ar gyfer datblygu a gweithredu mentrau ar gyfer goroeswyr ar draws sectorau. Trwy adeiladu ar y gwaith presennol ar ariannu gwasanaethau cyhoeddus sydd o fewn ei phwerau datganoledig, gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob gwasanaeth yn gallu cefnogi dioddefwyr a goroeswyr waeth beth fo'u statws mewnffudo.

Fe wnaeth darparwyr a goroeswyr awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella'r ddarpariaeth yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Ariannu** – cyllid hirdymor a chraidd a chyllid sy'n benodol i ddarpariaeth gwasanaeth SGBV ymfudol dan orfod, ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac i gynyddu capasiti yng Nghymru.
- **Gwasanaethau ychwanegol** – roedd goroeswyr am weld gwasanaethau diogel y gellir ymddiried ynddynt y gallant fynd atynt heb atgyfeiriad. Mae angen grwpiau menywod hefyd, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.
- **Ymestyn cymorth Covid** – dywedodd sawl ymatebwr fod "Pawb i Mewn" wedi arwain at rai datblygiadau defnyddiol yng Nghymru a oedd wedi lleihau bregusrwydd goroeswyr.
- **Rhannu gwybodaeth** – gwell rhannu rhwng adrannau Llywodraeth Cymru i alluogi cydweithio ar draws portffolios a lobio am wasanaethau i oroeswyr SBV.
- **Hyfforddiant** – Er bod y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (o dan y Ddeddf VAWDASV) yn darparu hyfforddiant ar VAWDASV, galwodd pob darparwr gwasanaeth am gynnig mwy o hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern, masnachu mewn pobl a mathau eraill o SGBV i bob sefydliad a allai fod mewn cysylltiad ag ymfudwyr dan orfod.
- **Cyfleoedd addysg a dysgu proffesiynol i newydd-ddyfodiaid** – mae dosbarthiadau iaith yn grymuso goroeswyr i siarad drostynt eu hunain, mae addysg a hyfforddiant yn tynnu sylw oddi wrth drawma gofidus a'r ansicrwydd o aros am gais am loches.
- **Gwell mesurau diogelu i blant** - mwy o fesurau diogelu i blant sydd wedi'u masnachu i mewn i'r wlad ac i nodi unigolion sy'n cael eu masnachu fel plant.
- **Tai** – mwy o waith cydgyssylltiedig rhwng awdurdodau lleol Cymru a darparwyr llety'r Swyddfa Gartref i gefnogi 'paru' pobl ar gyfer tai sy'n briodol iddynt hwy, yn arbennig mamau sengl a phobl LGBTIA+.
- **Y system lloches** - mae angen mwy o dryloywder ac effeithlonrwydd o amgylch prosesau lloches er mwyn lleihau amseroedd aros, mae angen i weithwyr achos fod yn fwy empathig, a dylid egluro natur y dystiolaeth sydd ei hangen (h.y. i brofi SGBV neu rywioldeb).
- **Yr hawl i weithio ac astudio** – dylai fod gan y rhai yn y system lloches fynediad hawdd at waith ac astudio fel y gallant dynnu eu sylw oddi wrth drawma ac ansicrwydd
- **LGBTIA+ a Phobl Hŷn** – Gwaith pellach gyda sefydliadau sy'n arwain y ffordd yng Nghymru ar ddeall anghenion y grwpiau hyn.
- **Cydraddoldeb Hiliol** – chwilio am gyfleoedd i gryfhau'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ac adnewyddu'r strategaeth VAWDASV i ganolbwyntio ar ymfudwyr dan orfod ac yn arbennig y rhai sy'n cael trafferth wrth gyrchu gwasanaethau o ganlyniad i'w statws mewnffudo a gwahaniaethu hiliol.

Cyfeiriadau

UNHCR (2021) Global Trends: Forced Displacement in 2020. <https://www.unhcr.org/60b638e37/unhcr-global-trends-2020>

UNHCR (2022) A month since the start of the war, almost a quarter of Ukraine's population are displaced. <https://www.unhcr.org/uk/news/briefing/2022/3/623da5894/month-since-start-war-quarter-ukraines-populationdisplaced.html>

Women's Refugee Commission (2019) More than one million pains. Sexual violence against men and boys on the central Mediterranean route to Italy. <https://reliefweb.int/report/italy/more-one-millionpains-sexual-violence-against-men-and-boys-centralmediterranean-route> (Accessed 15 July 2021).

Link to full report: <https://www.birmingham.ac.uk/Documents/college-social-sciences/social-policy/iris/2022/sereda-wales-report-welsh.pdf>

Contact: sereda@contacts.bham.ac.uk